

DOLEN Y TAB – 52

23–24 EBRILL 2021

Oedfa Bore Sul 25 Ebrill

Oedfa yng ngofal Lowri Leeke, Iestyn Morris a Geraint Rees.

Yr Oedfaon Nesaf

Mai

- 2 Emlyn Davies
9 Y Parchg. Aled Edwards

Hefyd Ddydd Sul 25 Ebrill . . .

10.30 Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr

Yng ngofal y Parchg. Guto Llywelyn, Hendy-gwyn.
www.annibynwyr.org ac ar *You Tube*.

12:00 Oedfa Radio Cymru

Dan ofal y Parchg. Rhodri Glyn, Llansannan.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19:30 S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Ar ddechrau Wythnos Genedlaethol Garddio, bydd Nia yn cwrdd â grŵp garddio cymunedol yn Silian a hefyd yn taro draw i'r ardal hon i sgwrsio gydag un o aelodau'r Tabernacl. Datgelir y cyfan yn y rhaglen nos Sul, felly cofiwch wyllo!

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

7.30

Nos Fawrth 25 Mai

Adnoddau Newydd at Ddefnydd yr Ysgol Sul

Cyflwyniad gan
Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair.

Cyhoeddir rhagor o fanylion ynghylch sut i 'fynychu'r' cyfarfod dros *Zoom* yn agosach at y dyddiad.

Gwahoddiad

Yn rhifyn yr wythnos ddiwethaf o *Dolen y Tab*, estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Tabernacl i gyflwyno unrhyw sylwadau oedd

ganddynt am y cynllun arfaethedig i gyflogi swyddog fyddai'n ysgogi a chydlynu gwaith ieuencid a chymunedol. Os ydych am leisio barn, neu gynnig awgrymiadau, gofynnwn i chi wneud hynny erbyn bore Llun, 26 Ebrill, fan bellaf er mwyn i'ch sylwadau gael eu gwyntyllu pan fydd yr Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi yn cwrdd yn ddiweddarach ddydd Lun. Cofiwch y dylid anfon y sylwadau i gyfrif e-bost Capel y Tabernacl:

capelytabernacl@gmail.com



WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Mai 10–16, 2021

Eleni, bydd Cymorth Cristnogol yn casglu ar gyfer lleddfu problemau sy'n wynebu nifer o wledydd oherwydd y sychder yn sgil newid hinsawdd.

Unwaith eto, fydd dim modd casglu o ddrws i ddrws, a byddwn ni yn y Tabernacl yn dilyn yr un cyfarwyddiadau â'r llynedd, drwy sieciau a throsglwyddiadau banc.

Dyma'r manylion cyfrannu ar gyfer y casgliad pwysig hwn:

Sieciau'n daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, ynghyd â'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol, i'w hanfon at:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

Trosglwyddiad banc, gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol :

Cod Didoli: 30 - 96 - 72

Rhif cyfrif: 03607499

DIOLCH YN FAWR I CHI AM EICH CEFNOGAETH

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Rebel go iawn...

Ddechrau'r mis bu farw'r diwinydd a'r offeiriad Pabyddol Hans Küng (1928–2021). Yn academydd disglair, arweiniodd ei ddaliadau blaengar at gael ei 'alltudio' gan yr Eglwys Babyddol. Diolch i Rowland Wynne nid yn unig am dynnu ein sylw at y deyrnged iddo gan Peter Stanford, cyn-olygydd y *Catholic Herald*, yn y *Guardian*, ond hefyd am grynhoi a chyfieithu'r deyrnged i'w chynnwys yn y *Ddolen*.



Ar 6 Ebrill bu farw Hans Küng yn 93 mlwydd oed, 11 mis yn iau na'r Pab Emeritws Bened XVI. Am dair blynedd yng nghanol y 60au bu'r ddau yn cydweithio'n gytûn ym Mhrifysgol Tübingen, yr Almaen: yn wir, Küng fu'n gyfrifol am recriwtio'r Tad Joseph Ratzinger, fel yr adwaenid ef bryd hynny. Ond o ran eu gweledigaeth ynghylch yr eglwys roeddent, yn ôl Küng, ganrifoedd oddi wrth ei gilydd; yn 2013 dywedodd fod Bened "yn byw'n ddeallusol yn y *Canol Oesoedd*".

Fe'i magwyd yn Lucerne, ei dad yn fasnachwr sgidiau a'i fam yn ferch ffarm. Rhoddodd ei fryd ar fod yn offeiriad ers yn grwt, ac ar ôl dyddiau ysgol aeth i astudio ym Mhrifysgol Gregoraidd Rhufain. Cafodd ei ordeinio ym 1954 a chychwyn ei offeiriadaeth yn Lucerne.

Gwnaeth ei farc pan gafodd ei ddewis ar ddechrau'r 60au gan y Pab Ioan XXIII yn un o ymgynghorwyr Ail Gyngor y Fatican a dderbyniodd y dasg o ddiwygio'r eglwys. Er yn ddydd ifanc, ystyrir i'w gyfraniad fod yn ddylanwadol. Dyma'r adeg hefyd y cafodd ei benodi i gadair Diwinyddiaeth Prifysgol Tübingen ac yn gyfarwyddwr athrofa ymchwil eciwmenaidd y brifysgol.

Un o brif themâu yr Ail Gyngor oedd adeiladu pontydd a phartneriaethau cydradd ag eglwysi a chrefyddau eraill, ond gyda dyfodiad olynnydd Ioan, Paul VI, buan y chwalwyd y gobeithion. Ym 1968, gwrthwynebodd Küng ddatganiad Paul VI fod defnyddio dulliau atal cenhedlu "artiffisial" yn bechod. Ceisiodd y Pab ei dawelu drwy gynnig swydd iddo yn y Fatican, ond gwrthod wnaeth Küng. Yn ôl rhai, gallai fod wedi ei ethol yn Bab yn y pen draw pe bai wedi cytuno. Ym 1971 ymwrthododd â'r athrawiaeth swyddogol fod datganiadau'r Pab ar rai materion ffydd a moesoldeb yn anffaeledig. Arweiniodd hyn at flynyddoedd o ymrafael gyda Chynulliad y Fatican ar Athrawiaeth y Ffydd (corff sydd, yn ôl yr hanesydd Diarmaid

DARLITH GOFFA GETHIN ABRAHAM-WILLIAMS

Diwedd y Byd?

Apocalyptic Cristnogol ac ymatebion i newid hinsawdd

Wedi iddo dreulio cyfnodau sabothol yn 2020 yn astudio newid hinsawdd, fe wahoddwyd y Parchg. Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, i draddodi Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams ddydd Iau Mai 20 o 5–6.30yh.

Cynhelir y ddarlith ar-lein, a gellir cadw lle yma.

MacCulloch, yn ail-frandiad o'r Chwil-lys Rhufeinig). Yna ym 1979 penderfynodd y pab newydd, y diwinyddol geidwadol Ioan Paul II, alw'n ôl drwydded Küng i ddysgu diwinyddiaeth mewn prifysgol Gatholig. Felly bu'n rhaid i Brifysgol Tübingen symud ei gadair o'r Gyfadran Gatholig a'i gosod, ynghyd â'r athrofa eciwmenaidd, dan oruchwyliaeth uniongyrchol y brifysgol. Bu cryn wrthwynebiad i'r penderfyniad, ond roedd y Fatican yn ddi-syfl. Serch hynny, arhosodd Küng o fewn yr eglwys a pharhau i weithredu fel offeiriad. Gwrthododd Ioan Paul II gwrdd ag e ar sawl achlysur. Fodd bynnag roedd ei olynnydd, a chyn-gydweithiwr iddo, Bened XVI, yn awyddus i bontio'r bwllch rhyngddynt. Methiant, fodd bynnag, fu'r drafodaeth. Erbyn hynny roedd diddordebau Küng wedi ymestyn dipyn ymhellach na phan gollodd ei drwydded ym 1979.

Fel un a chanddo fwy na 50 cyfrol yn dwyn ei enw, roedd Küng yn awdur cynhyrchiol a hynny ar ystod eang o bynciau. Ymysg y rhain ceir astudiaethau ar Islam, Mozart, y berthynas rhwng gwyddoniaeth a chrefydd, a hyd yn oed gweithiau yn holi'r cwestiwn – a yw *Duw yn bod?*

Ar ôl iddo ymddeol, canolbwyntiodd ar hybu cydweithrediad a thrafod rhwng crefyddau'r byd. Pan ofynnwyd iddo pam y mynnodd aros yn rebel, dyfynnodd sylw'r Pab Gregori I: "Os yw *sgandal yn wir, yna gwell gadael i'r sgandal ddod i'r golwg na rhoi'r gorau i'r gwir*".

Gweler hefyd y deyrnged iddo gan Noel Davies yn y rhifyn cyfredol o'r *Tyst*, tud. 7 (www.annibynwyr.org)

Neges Amserol

A ninnau ar drothwy Etholiad Senedd Cymru, cyhoeddwyd neges amserol iawn ym Mwletin Cristnogaeth 21 fore Sul 18 Ebrill (<http://cristnogaeth21.cymru>) dan y teitl *Cristnogaeth a Gwleidyddiaeth sy'n wir yn werth ei darllen*. Dadlau mae'r awdur mor bwysig yw hi i Gristnogion ddilyn athrawiaeth Iesu Grist wrth weithredu ein hawliau gwleidyddol. Er i'r awdur dderbyn bod llygredd wedi bodoli erioed yn y maes hwn, yr hyn sy'n ei dristáu yw bod agweddau megis hunanoldeb, trachwant, celwydd, casineb a hiliaeth bellach yn cael eu gweld yn gwbl dderbyniol gan lawer iawn o ddinasyddion Cymru. Mae'r awdur yn cloi'r bwletin trwy nodi y bydd cyfle gan bob un ohonom i ethol gwleidyddion i'n cynrychioli yn y Senedd ar 6 Mai. Ei obaith yw y byddwn yn gwneud hynny yng ngoleuni ein ffydd Gristnogol drwy ethol 'cynrychiolwyr gonest, cyfrifol, cydwybodol sydd yn barod i amddiffyn y gwan, i sicrhau cyfiawnder i bawb yn ddiwahân'.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205.